

MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL (MEMORANDWM RHIF 2)

Y BIL ARWEINIAD A HAWLIADAU ARIANNOL

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae RhS 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, gerbron y Cynulliad Cenedlaethol os yw Bil Seneddol y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at unrhyw bwrpas sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol neu sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.
2. Cyflwynwyd y Bil Arweiniad a Hawliadau Ariannol ("y Bil") i Dŷ'r Arglwyddi ar 22 Mehefin 2017 a cafwyd y Darlleniad Cyntaf yn Nhŷ'r Cyffredin ar 22 Tachwedd 2017. Gellir cael copi o'r Bil yn:

[Bill documents — Financial Guidance and Claims Bill \[HL\] 2017-19 — UK Parliament](#)

Yr Amcan(ion) Polisi

3. Mae'r amcanion polisi a bennwyd gan Lywodraeth y DU yn cynnwys ei gwneud yn fwy eglur ac yn haws i bobl gael mynediad at wasanaethau cynghori penodedig penodol, drwy gael un corff, y Corff Arweiniad Ariannol ("SFGB") sy'n gyfrifol am bob arweiniad ariannol cyhoeddus, ac i ddiogelu defnyddwyr rhag camweddau eang ar draws sector y Cwmnïau Rheoli Hawliadau, megis galwadau digroeso ac annog hawliadau twyllodrus, drwy drosglwyddo'r cyfrifoldeb rheoleiddiol i'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol.

Crynodeb o'r Bil

4. Caiff y Bil ei noddi gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.
5. Mae prif ddarpariaethau'r Bil yn cynnwys creu un corff arweiniad ariannol a fydd yn cynnig arweiniad ar bensiynau a materion ariannol mewn un lle, a hefyd yn meddu ar swyddogaeth strategol o ran gallu ariannol. Mae'r Bil hefyd yn gwneud darpariaeth i datganoli cyllid ar gyfer cyngor dyledion i'r Gweinyddiaethau Datganoledig, a hefyd yn trosglwyddo'r cyfrifoldeb am reoleiddio cwmnïau rheoli hawliadau i'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol.
6. Bydd yn ofynnol i'r corff arweiniad ariannol:
 - Gydlynu'r gwaith o ddatblygu strategaeth genedlaethol ar gyfer y DU, i wella:
 - Gallu ariannol aelodau'r cyhoedd;
 - Gallu aelodau o'r cyhoedd i reoli dyledion; a
 - Rhoi addysg i blant a phobl ifanc ar faterion ariannol

- Datblygu amcan statudol yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff weithio'n agos â'r Gweinyddiaethau Datganoledig wrth ddarparu gwybodaeth, arweiniad a chynghor (am bensiynau, arian, dyledion a gallu ariannol strategol i aelodau'r cyhoedd yn y Gweinyddiaethau Datganoledig.)
- Darparu ar gyfer yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol i gasglu taliadau ardoll ar gyfer darparu cynghor dyledion yn y Gweinyddiaethau Datganoledig, ac i'r arian a gesglir gael ei drosglwyddo gan Drysorlys Ei Mawrhydi yn uniongyrchol i bob Gweinyddiaeth Ddatganoledig.
- Sefydlu pwyllgorau i gynghori neu i weithredu ei swyddogaethau.

Darpariaethau yn y Bil sy'n gofyn am gydsyniad

7. Mae gwelliannau a gynigwyd gan y Farwnes Buscombe ar ran Llywodraeth y DU ac y cytunwyd arnynt yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 21 Tachwedd 2017 yn darparu ar gyfer bod SFGB yn cynghori ar sefydlu 'cynllun seibiant dyled' ("*Debt respite scheme*"), os yw'r Ysgrifennydd Gwladol yn gofyn iddo wneud hynny, a hynny o fewn 3 mis iddo gael ei sefydlu.
8. Mae'r gwelliannau hyn i gymalau 3, 29 a 30 yn y Bil a gyflwynwyd i Dŷ'r Cyffredin ar 22 Tachwedd 2017 ac yn darparu cymal 7 ac 8 newydd iddo.
9. Pwrpas 'cynllun seibiant dyled' fydd gwarchod unigolion rhag cronni mwy o log neu daliadau ar eu dyledion am gyfnod a bennir gan y cynllun; amddiffyn y rheini sydd mewn dyled rhag camau gorfodi gan gredydwyd yn ystod y cyfnod a bennir a helpu credydwyd i lunio cynllun realistig ar gyfer ad-dalu peth o'r dyledion neu'r dyledion yn llawn.
10. Mae'r darpariaethau a fewnosodir gan y gwelliannau yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i geisio cynghor SFGB ar faterion amrywiol, gan gynnwys trafod y person priodol i weinyddu cynllun o'r fath (caniateir i SFGB awgrymu creu corff newydd at y diben hwn); cwmpas a dyluniad y cynllun; yr amddiffyniadau a roddir; cyfnod amser yr amddiffyniadau hynny; beth y dylai'r goblygiadau fod ar y dyledwyr a'r credydwyd, ynghyd â chanlyniadau methiant ar ran y credydwyd neu'r dyledwyr i gydymffurfio â chynllun ad-dalu; sut y byddai'r cynllun yn gweithio a sut y dylai gael ei roi ar waith. Unwaith y bydd cynghor SFGB wedi ei roi o ran 'cynllun seibiant dyled', rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi'r cynghor hwnnw.
11. Ar dderbyn y cynghor, mae'r darpariaethau yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, ystyried p'un ai i wneud Rheoliadau yn sefydlu 'cynllun seibiant dyled'. Wrth wneud y rheoliadau, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol roi ystyriaeth i gynghor SFGB a chaiff y Rheoliadau ddarparu y bydd y cynllun yn gymwys o ran Lloegr yn unig, Cymru a Lloegr, Gogledd Iwerddon a Lloegr neu o ran Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

12. Pan fo rheoliadau'n cael eu gwneud sy'n darparu bod y cynllun yn gymwys o ran Cymru, rhaid iddynt gael eu gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a chael eu cymeradwyo ganddo, yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol. Bydd hyn yn galluogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru i ystyried a chymeradwyo'r rheoliadau os yw'r cynllun i fod yn gymwys o ran Cymru, ac unrhyw ddiwygiadau (a gaiff eu cynnwys yn y Rheoliadau) i Ddeddf neu Fesur presennol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
13. Mae'r darpariaethau hyn o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â phwnc 4, 5 a 15 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, o gofio mai prif ddiben y darpariaethau hyn yw amddiffyn, cefnogi a rhoi cymorth mewn cysylltiad â dyled, drwy sefydlu cynllun seibiant dyled statudol.

Rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn i Gymru yn y Bil Arweiniad a Hawliadau Ariannol

14. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil DU hwn, gan ei fod yn galluogi'r darpariaethau i ddod i rym ar yr un pryd ar draws y DU, ac yn caniatáu i SFGB fabwysiadu dull cydlynol a chydgyssylltiedig o fynd i'r afael â chreu 'cynllun seibiant dyled'. Cred Llywodraeth Cymru mai'r Bil yw'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf priodol a chymesur i roi'r cynllun ar waith yng Nghymru, yn ddarostyngedig i ystyriaeth lawn Cynulliad Cenedlaethol Cymru o fanylion unrhyw gynllun a gynigir a'i fod yn cymeradwyo'r rheoliadau sy'n gweithredu unrhyw gynllun.

Goblygiadau ariannol

15. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn ymwneud â'r darpariaethau hynny o'r Bil sydd o fewn y cymhwysedd.

Casgliad

16. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil DU hwn. Mae hyn yn fan cychwyn o ran symud i sefydlu 'cynllun seibiant dyled', a fydd yn gofyn am fewnbwn sylweddol gan Gymru ac ystod eang o randdeiliaid wrth gynllunio cynllun o'r fath. Hefyd, bydd y darpariaethau yn osgoi'r angen am deddfwriaeth sylfaenol ychwanegol, a fyddai'n achosi rhagor o oedi o ran sefydlu cynllun o'r fath.
17. Bydd angen i unrhyw reoliadau, i'r graddau y byddant yn darparu cynllun seibiant dyled a fydd yn gymwys o ran Cymru, gael eu gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a chael eu cymeradwyo ganddo. Bydd hyn yn gyfle i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ystyried yn llawn oblygiadau Cynllun Seibiant Dyled yng Nghymru. Ceir yn y Bil ddyletswydd statudol i SFGB gydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru ynghylch darparu gwybodaeth, canllawiau a chyngor i aelodau'r cyhoedd yng Nghymru.

**Rebecca Evans AC, Y Gweinidog Tai ac Adfywio
Rhagfyr 2017**

